# SDA - CANLLAW CYFLYM I FYFYRWYR

office of the independent adjudicator

Mae Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch (SDA) yn cynnal cynllun **annibynnol** a **diduedd am ddim** i adolygu cwynion gan fyfyrwyr.

Os ydych chi wedi cwblhau gweithdrefnau mewnol eich darparydd ac yn anhapus â'i benderfyniad terfynol, mae'n bosibl y gallwch gwyno wrthym.

Pan fydd myfyriwr wedi cyrraedd diwedd gweithdrefnau'r darparydd, ac nad oes unrhyw gamau pellach y gallwch eu cymryd yn fewnol, bydd y darparydd fel arfer yn anfon Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau (LlCG) atoch.

Mae gennych chi **12 mis** o'r dyddiad y cyhoeddwyd y Llythyr CG i gwyno wrthym. Mae hwn yn derfyn amser llym ac mae'n werth cofio po hiraf y byddwch chi'n aros i gwyno wrthym, y gall fod yn anoddach gwneud pethau'n iawn.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am ddod â chwyn atom, yr hyn y gallwn ac na allwn edrych arno a'r hyn sydd o fewn ein pŵer i wneud pethau'n iawn yn **www.oiahe.org.uk** neu trwy gysylltu â gwasanaeth cynghori eich undeb, cymdeithas neu urdd myfyrwyr.

## Dyma rai enghreifftiau o'r hyn y gallwn ni edrych arnynt:

- Cwynion gan fyfyrwyr
- Apeliadau academaidd
- Materion disgyblu academaidd ac anacademaidd
- Addasrwydd i ymarfer
- Addasrwydd i astudio
- Bwlio ac aflonyddu

## Dyma rai enghreifftiau o gwynion na allwn edrych arnynt:

- Materion derbyn
- Dyfarniad academaidd - er enghraifft marc terfynol am ddarn o waith (ond gallwn edrych ar y broses a ddefnyddiwyd ar gyfer marcio, e.e. rhagfarn)
- Cyflogaeth myfyrwyr
- Achosion cyfreithiol parhaus (oni bai eu bod wedi cael eu gohirio)

**0118 959 9813**
**enquiries@oiahe.org.uk**
**www.oiahe.org.uk**